**Cynhadledd Flynyddol RSAW 2023 – y 30ain**
Dydd Iau 30 Tachwedd
Cornerstone, Heol Siarl, Caerdydd CF10 2SF



# PENSEIRI

## — ARWEINWYR YNTEU DDILYNWYR, GOLWG ARALL

Dan ofal Rockpanel

Cefnogir gan Design Commission for Wales / Comisiwn Dylunio Cymru; Ibstock – At the heart of building

RSAW
Architecture.com/wales

# PENSEIRI – ARWEINWYR YNTEU DDILYNWYR, GOLWG ARALL

RSAW
Architecture.com/wales



Canolfan ragoriaeth Cadeirlan Caerefrog © Tonkin Liu

## Ar 30 Tachwedd 2023, byddwn yn dathlu 30ain Gynhadledd Flynyddol RSAW drwy ailymweld â thema'r gynhadledd gyntaf erioed yn 1994: 'Penseiri – Arweinwyr ynteu Ddilynwyr: y deng mlynedd nesaf'

Gan fod RSAW wrthi'n brysur yn llunio'i Weledigaeth ar gyfer 2024-2034, rydym eisoes â'n golwg ar y 10 mlynedd nesaf. Ein gobaith yw darganfod beth a phwy sy'n newydd ym myd pensaernïaeth, taith bensaernïol pwy y dylem ei dilyn, a sut mae'r 30 mlynedd diwethaf wedi effeithio ar fyd pensaernïaeth, nid yn unig yng Nghymru, ond yn fyd-eang.

Byddwn yn ailedrych ar rai o themâu allweddol 1994, gan ganolbwyntio ar yr hyn a ystyriwyd yn broblemau'r proffesiynau pensaernïol, fel disgwyliadau cleientiaid, cydbwysedd gwaith rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, defnyddwyr, adeiladau'n mynd yn fwy cymhleth, systemau TG yn mynd yn fwy soffistigedig ac effeithiau hynny ar y stiwdio luniadu.  Sefyllfaoedd llai rhagweladwy, ffioedd, cystadleuaeth, a hunan-les.

Yn ogystal, byddwn yn ystyried ac yn asesu'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r proffesiwn heddiw.  Mae rhaglen y dydd yn cynnwys pum astudiaeth achos gan benseiri sydd wedi ennill gwobrau RIBA. Bydd y rhain yn archwilio ethos practis llwyddiannus, sut i sicrhau bod cynaliadwyedd wrth galon pob prosiect, dylanwad cynyddol deallusrwydd artiffisial, sut y gall practis bach gael syniadau mawr, ac adolygiad o gynllun a enillodd Wobr Genedlaethol gan RIBA yn ddiweddar.  Yn ôl yr arfer, daw'r diwrnod i ben gyda'r Awr Ysbrydoliaeth dan ofal practis o'r Alban sydd wedi ennill sawl gwobr, Dualchas Architects.


**Cynhadledd Flynyddol RSAW 2023**
Cornerstone, Heol Siarl, Caerdydd CF10 2SF

# Rhaglen Amlinellol



Dualchas: Tŷ yn Diabeg
© Pierce Scourfield

**PENSEIRI – ARWEINWYR YNTEU DDILYNWYR, GOLWG ARALL**



Dualchas: Half of Eleven © David Barbour


## Dydd Iau 30 Tachwedd

| | |
|---|---|
| 9.00 | Cofrestru<br>Te a Choffi yn Neuadd Jane Hodge |
| 9.30 | Croeso gan RSAW<br>Dan Benham, *Benham Architects; Llywydd RSAW* |
| 9.40 | Cyflwyniad<br>Robin Nicholson, *Cadeirydd Cynhadledd RSAW* |
| 9.55 | Ble rydym ni nawr...ar ôl 30 mlynedd?<br>Alan Francis, *Cyfarwyddwr, Gaunt Francis Architects* |
| 10.15 | Newyddion am addysg a Holi ac Ateb<br>Jenny Russell, *Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu, RIBA*<br>Hugh Simpson, *Prif Weithredwr, ARB* |
| 10:55 | *Paned ganol bore* |
| 11:25 | Astudiaeth achos 1<br>Anna Liu, *Cyfarwyddwr, Tonkin Liu* |
| 11.45 | Astudiaeth achos 2<br>Louisa Bowles, *Arweinydd Cynaliadwyedd yn Hawkins\Brown* |
| 12.10 | Sesiwn Holi ac Ateb<br>Alan Francis, *Cyfarwyddwr, Gaunt Francis Architects*<br>Anna Liu, *Cyfarwyddwr, Tonkin Liu*<br>Louisa Bowles, *Arweinydd Cynaliadwyedd yn Hawkins\Brown* |
| 12.30 | *Amser cinio*<br>Cinio yn Neuadd Jane Hodge |

| | |
|---|---|
| 13.30 | Astudiaeth achos 3<br>Paul Maich, *Cyfarwyddwr, Maich Swift* |
| 13.50 | Astudiaeth achos 4<br>Duarte Lobo Antunes, *Cyfarwyddwr, AISFOR__* |
| 14.10 | Astudiaeth achos 5<br>Keir Regan-Alexander, *Pennaeth, Arka Works* |
| 14.40 | Sesiwn Holi ac Ateb<br>Paul Maich, *Cyfarwyddwr, Maich Swift*<br>Duarte Lobo Antunes, *Sefydlydd a Chyfarwyddwr yn AISFOR__*<br>Keir Regan-Alexander, *Pennaeth, Arka Works* |
| 15.00 | *Amser te* |
| 15.30 | Awr ysbrydoliaeth a Holi ac Ateb<br>Neil Stephen a Rory Flyn, *Dualchas Architects* |
| 16.30 | Crynodeb a geiriau i gloi |
| 16.40 | *Diwedd* |

# Sut i gadw lle

Os hoffech gadw lle yng Nghynhadledd Flynyddol RSAW 2023, ewch i: https://www.eventbrite.co.uk/e/rsaw-annual-conference-2023-tickets-711060349647?aff=oddtdtcreator



Adeilad Gwyddorau Trefol Prifysgol Newcastle © Hawkins Brown

**Trefn brisio'r tocynnau:**

**Gostyngiad bargen gynnar i aelodau: £99 + TAW**

Aelodau RSAW/ RIBA: £120 +TAW

Pobl eraill: £175 +TAW

Myfyrwyr/Pobl wedi Ymddeol: £60 +TAW

*I gael manylion gostyngiad i rai o aelodau RIBA, cysylltwch â RSAW@riba.org*

**Gostyngiad Grŵp ar gyfer Practisiau Siartredig**

Cymerwch ostyngiad o 5% i grwpiau o rhwng 3 a 5 o gynadleddwyr.

Cymerwch ostyngiad o 10% i grwpiau o 6 neu fwy o gynadleddwyr.



**Pynciau'r cwricwlwm craidd**

| | |
|---|---|
| 1 | Pensaernïaeth at ddiben cymdeithasol |
| 3 | Busnes, cleientiaid a gwasanaethau |
| 6 | Pensaernïaeth gynaliadwy |
| 7 | Amgylcheddau cynhwysol |
| 8 | Lleoedd, cynllunio a chymunedau |
| 9 | Gwarchod adeiladau a threftadaeth |
| 10 | Dylunio, adeiladu a thechnoleg |

Mae'r gynhadledd undydd hon yn cyfateb i 6 awr o DPP i aelodau RSAW/RIBA, ac yn berthnasol i'r pynciau craidd hyn yn y cwricwlwm: 1, 3, 6, 7, 8, 9, 10.

Singing Ringing Tree © Mike Tonkin



RSAW
Architecture.com/wales

RSAW yw Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) yng Nghymru

Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru
Studio 111, The Creative Quarter,
Arcêd Morgan, Caerdydd  CF10 1AF
029 2022 8987
rsaw@riba.org
www.architecture.com/wales

**Lluniau:**

Clawr:
Dualchas, The Black House
© David Barbour

Isod:
55 Great Suffolk Street
© Hawkins Brown

